**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**
**RHONDDA CYNON TAF**

**BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Iau, 26 Ionawr 2023 am 10.00 am

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd G Caple (Cadeirydd)

Y Cynghorydd R Lewis Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd S Rees Y Cynghorydd P Evans

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr N Elliott, Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol
Ms A Lloyd, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant
Ms C Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant
Ms S Edwards, Service Manager, Children's Services
Mr L Lewis, Pennaeth Dros Dro Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc
Ms C Williams, Rheolwraig Gwasanaeth - Plant Anabl
Ms L Hawkins, Pennaeth Ysgol Rithwir
Ms N Katchi, Swyddog Graddedig - Cyfranogiad (Gwasanaethau i Blant)
Cynrychiolydd Voices from Care Cymru
Cynrychiolydd Pobl Ifainc

**25 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**26 Cofnodion**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol, ar 24 Tachwedd 2022, yn rhai cywir.

**27 Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET) a'r Cod ADY ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal**

Rhoddodd Bennaeth yr Ysgol Rithwir ddiweddariad i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol am oblygiadau Deddf Tribiwnlys Addysg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2018) a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 2021 ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ag ADY ac i ddiweddaru'r Bwrdd ar waith cyflwyno'r uchod yn rhan o Ail Flwyddyn o'r Amserlen Genedlaethol ar gyfer Gweithredu ADY yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r swyddog am yr adroddiad cynhwysfawr cyn rhoi'r cyfle i Aelodau holi cwestiynau.

Roedd Aelod wedi cydnabod bod y cyfnod pontio yn aml iawn yn gyfnod heriol i bobl ifainc a holodd p'un a yw'r elfen addysgol o'r Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal yn cael yr un sylw a'r elfen iechyd, o ran pontio. Rhoddodd y Swyddog wybod bod tua 80% o'r Cynllun Datblygu Unigol yn seiliedig ar addysg gan esbonio bod pedwar maes angen yn cael eu hystyried yn ystod cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (Gwybyddiaeth a Dysgu; Materion Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiad; Cyfathrebu a Rhyngweithio a Materion sy'n ymwneud â'r Synhwyrau). Cafodd Aelodau wybod bod y deilliannau a fwriedir yn cael eu nodi ar ôl pennu'r anghenion penodol, ac yna caiff yr ysgol ei chefnogi i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol.

Nododd Aelod fod rhai rhieni yn gwrthwynebu'r term 'ysgol arbennig' gan holi a oedd unrhyw fwriad i newid y term yma. Rhoddodd y swyddog wybod y byddai'n mynd ati i gael ateb i'r cwestiwn yna a'i rannu yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Ieuenctid a'r Gymraeg yn gadarnhaol am yr achlysur Ysgol Rithwir, roedd ef o'r farn bod yr achlysur wedi tynnu sylw at y ffordd ymlaen a'r heriau. Roedd yr Aelod o'r Cabinet wedi cydnabod yr ystod eang o gyfrifoldebau statudol ar gyfer yr Awdurdod Lleol, gan bwysleisio bod y Cabinet yn cydnabod bod hyn yn faes sydd dan bwysau yn yr Adran Addysg, ac sydd hefyd angen cyllid ac adnoddau ychwanegol. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am ddau adroddiad a gafodd eu trafod gan y Cabinet yn 2022 mewn perthynas ag ysgol arbennig ychwanegol yn y Fwrdeistref Sirol a chyllid ychwanegol ar gyfer ADY.

**PENDERFYNODD** y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad; a
2. Derbyn adroddiad pellach mewn perthynas â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a gweithredu'r Cod ADY ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn y dyfodol os oes angen.

## 28 Adroddiad Monitro Lleoliadau'r Sector Annibynnol

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd a Llety a'r Rheolwr Comisiynu Rhanbarthol ar gyfer Consortiwm Comisiynu Plant Cymru drosolwg a diweddariad i'r Aelodau ynghylch sut mae Gwasanaethau i Blant RhCT yn comisiynu ac yn monitro plant sy'n derbyn gofal ac sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir.

Gan gyfeirio at ddigwyddiad mewn Awdurdod Lleol yn Lloegr, lle'r oedd adroddiadau Ofsted yn gadarnhaol iawn, nododd Aelod fod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn canolbwyntio ar faterion llesiant y plant sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir a cheisiodd sicrwydd bod y broses adolygu lleoliadau a'r trefniadau eiriolaeth yn gadarn yn RhCT. Roedd y Rheolwr Comisiynu Rhanbarthol wedi cydnabod pryderon yr Aelod, gan esbonio bod dull haenog yn cael ei weithredu mewn perthynas â materion diogelu a monitro safonau. Rhoddodd y Swyddog wybod mai AGC yw'r corff rheoleiddio yng Nghymru ac mae ganddyn nhw fframwaith o ran cofrestru, rhoi gwybod am unrhyw faterion sy'n codi, ac adroddiadau archwilio cyson. Esboniodd y Swyddog fod mecanweithiau cadarn ar waith yng Nghymru o ran cyfathrebu ag AGC, rhoddodd wybod fod Consortiwm Comisiynu Plant Cymru yn cwrdd ag AGC bob mis er mwyn rhannu

adborth ynghylch archwiliad, yn ogystal â gwybodaeth a phryderon eraill. Soniodd y Swyddog am ddarparwyr y fframwaith, Consortiwm Comisiynu Plant Cymru a'r ymweliadau monitro amrywiol (ffurfiol ac annisgwyl) sy'n cael eu cynnal gyda darparwyr. Daeth y Swyddog i ben drwy roi sicrwydd i Aelodau bod y carfanau'n gweithio'n agos gyda Charfan Lleoliadau RhCT a bod hyfforddiant ychwanegol wedi'i gynnal gyda'r Swyddog Monitro Contractau.

**PENDERFYNODD** y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod RhCT yn caffael lleoliadau allanol o safon ar gyfer ein plant.

**29 Y diweddaraf o ran cyfranogiad plant a phobl ifainc sydd â phrofiad o fod mewn gofal**

Rhoddodd y Swyddog Graddedig ar faterion Cyfranogiad ddiweddariad i'r Aelodau mewn perthynas â gweithgareddau ymgysylltu y Gwasanaethau i Blant RhCT a'r Strategaeth Cyfranogiad ar gyfer 2023. Cafodd Aelodau wybod y bydd diweddariad pellach ar y Cynllun Gweithredu a'r Strategaeth yn cael ei ddarparu yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

Yn rhan o'r diweddariad yma, roedd person ifanc o Voices From Care Cymru yn bresennol i roi trosolwg o'r gwaith sydd wedi'i gynnal i gefnogi pobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal yn Rhondda Cynon Taf.

Pwysleisiodd y swyddog pa mor bwysig yw hi i ymgysylltu â phobl ifainc sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth, i helpu i ddatblygu'r Strategaeth. Esboniodd fod swyddogion wrthi'n gweithio tuag at gynyddu nifer y bobl sy'n ymateb i'r arolwg 'Dod yn rhan o bethau'. Hyd yn hyn dim ond 7% sydd wedi ymateb.

Cafodd yr Aelodau eu gwahodd i ymuno â grŵp tasg, i drafod a fyddai modd diwygio aelodaeth y Bwrdd Rhianta Corfforaethol fel bod modd cynnwys pobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal, a hynny er mwyn cynnwys pobl ifainc yn rhan o'r trefniadau llywodraethu. Pe byddai'r Aelodau'n cytuno i ymuno â'r grŵp, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod y byddai'r cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol er mwyn eu trafod. Gofynnodd y Cadeirydd fod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn rhannu'r manylion gydag Uned Busnes y Cyngor.

**PENDERFYNODD** y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad a gwneud sylwadau amdani.

**30 Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf**

Darparodd Pennaeth Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf ddiweddariad o waith Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf ar gyfer 2022/23 i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys diweddariad ar faterion darparu gwasanaeth yn dilyn ailstrwythuro'r gwasanaeth yn Awst 2021, a hynny er mwyn rhoi amlinelliad o'r blaenoriaethau cyfredol a rhoi gwybod i'r Aelodau am flaenoriaethau'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol yn ogystal â'r heriau/risgiau cysylltiedig.

Gofynnodd Aelod am wybodaeth bellach mewn perthynas â'r gwaith sydd wedi'i gynnal gydag Ysgolion Cynradd, gan nodi bod y gwaith yma'n allweddol o ran osgoi materion yn gwaethygu. Rhoddodd y swyddog wybod bod y Swyddog

Dychwelyd i Ddysgu wedi cynnal gwaith gyda phlant mewn ysgolion uwchradd sydd naill ai wedi bod yn rhan o ymddygiad troseddol neu'n agos at droseddu. Roedd y rôl yn cynnwys siarad gyda'r person ifanc ynglŷn â'r peryglon a'r canlyniadau posibl sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er bod y dull yma yn y camau cynnar, mae'r dull hefyd yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion cynradd hefyd er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar blant cynradd, megis y cyfryngau cymdeithasol, yn hytrach na throseddau cyllyll. Cytunodd yr Aelodau y byddai'n fuddiol derbyn diweddariad pellach yn y dyfodol mewn perthynas â'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflwyno'r dull i bob ysgol gynradd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad manwl a **PHENDERFYNODD** y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Nodi'r newidiadau sydd wedi'u gwneud yn y Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc, a'r heriau sydd o'n blaenau o ganlyniad i'r newidiadau i'r gwasanaeth yn dilyn ailstrwythuro a newidiadau strategol mewn perthynas â mesurau cyflawniad y Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc; a
2. Derbyn diweddariadau pellach maes o law i sicrhau bod Aelodau'n fodlon gyda'r cynnydd a'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud a sut mae hyn yn cyfrannu at ddeilliannau gwell ar gyfer plant a'u teuluoedd.

**31 Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf - Lleihau troseddoli o ran plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal: protocol Cymru gyfan**

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf wybod i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol am y 'Protocol Cymru Gyfan: Lleihau nifer y plant ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu troseddoli 2022'.

Bwriad y protocol yma yw helpu gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifainc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, a rhannu fframwaith o egwyddorion a disgwyliadau cyffredin wedi'u llywio gan ddull sy'n rhagweithiol wrth hyrwyddo hawliau plant ac sy'n diogelu ac yn hyrwyddo'u llesiant.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r Swyddog am y diweddariad yn holi a yw camfanteisio ar blant a phobl ifainc yn broblem yn RhCT. Rhoddodd y swyddog wybod bod cynnydd wedi bod yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a defnyddio cyffuriau, ynghyd â phlant sy'n cael eu camfanteisio er mwyn cludo cyffuriau ar gyfer pobl hŷn. Cafodd Aelodau wybod bod Strategaeth yn cael ei lunio ledled rhanbarth Cwm Taf Morgannwg a bod yr heriau sy'n gysylltiedig â hyn yn cynnwys rhannu dealltwriaeth o beth mae hyn yn ei olygu a hynny gan ei bod hi'n bosibl y bydd gan asiantaethau gwahanol safbwyntiau gwahanol.

**PENDERFYNODD** y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad; a
2. Derbyn adroddiadau pellach maes o law er mwyn clywed y diweddaraf am ddata lleol/rhanbarthol a pha gynnydd a gwelliannau sydd wedi'u gwneud a sut mae hyn yn cyfrannu at ddeilliannau gwell ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

**32 Adroddiad Blynyddol Ansawdd Gofal y Gwasanaeth Maethu**

Diolchodd Rheolwr y Gwasanaeth i Aelodau'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol am y

cyfle i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Ansawdd Gofal y Gwasanaeth Maethu.

Cafodd yr adroddiad yma'i lunio yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae Rheoliad 52 o Reoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018 yn gofyn bod y Rheolwr yr awdurdod lleol yn rhoi trefniadau addas ar waith i sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.

Siaradodd Aelod yn gadarnhaol am drefniadau recriwtio rhieni maeth ar gyfer mamau a'u babanod, gan ofyn sut y byddai hyn yn gweithio. Rhoddodd y swyddog wybod bod angen y dull yma, ond roedd hefyd wedi cydnabod y bydd hyn yn heriol wrth symud ymlaen. Roedd un opsiwn yn cynnwys gweithio gyda Maethu Cymru i dargedu pobl cymwys, megis Ymwelwyr Iechyd, opsiwn arall yw cael rhieni maeth sydd eisoes wedi'u sefydlu i droi at y rôl; ac opsiwn arall yw gwneud y rôl yn rôl gymunedol.

**PENDERFYNODD** y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

1. Nodi'r wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad

**33 Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**34 Ymchwiliad i gŵyn - Cartref i Blant Carn Ingli**

Rhannodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd a Llety yr adroddiad sy'n cynnwys yr wybodaeth eithriedig â'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. Gwella cyfathrebu rhwng Swyddogion ac Aelodau o ran y Gwasanaethau Preswyl.
    - Cynnal cyfarfod blynyddol gydag Aelodau'r Ward i'w diweddaru ar y ddarpariaeth gyfredol yn eu Wardiau unigol, cyfrifoldebau rhianta corfforaethol a sut i roi gwybod am bryderon.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.35 am**

**Y Cynghorydd G Caple**
**Cadeirydd.**